Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

# Adroddiad Blynyddol

## Ebrill 2022-Mawrth 2023

## Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Cynnwys


3 Amdanom Ni

5 Datganiad gan y Prif Weithredwr

6 Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd

7 Adolygiad o'r Flwyddyn

8 Sicrhau Ansawdd ac Arloesedd

9 Arweinyddiaeth System

10 Ein Cymdeithion

12 Datblygu Arweinyddiaeth a Phartneriaethau

14 Adnoddau, Mewnwelediad, Lles, Datblygu'r Gweithlu ac Ymgysylltu

19 Datganiadau Ariannol

# Amdanom Ni


Cenhadaeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yw “Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau” gyda’r nod o ddod ag eglurder a chydlyniaeth i arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru. Drwy ein gwaith, byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu ymgysylltu gyda’r dysgu proffesiynol mwyaf perthnasol, ystyrlon ac ysbrydoledig.

Mae’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi’i seilio ar weledigaeth gref, ac mae cyfres o werthoedd ac egwyddorion craidd yn sail iddi sydd wedi’u datblygu ar y cyd gan y sector. Wrth wraidd y weledigaeth hon mae ymrwymiad i sicrhau bod gan bob arweinydd yn y system addysg fynediad at gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o safon uchel sy’n diwallu eu hanghenion lle bynnag y maen nhw, a waeth pa gam y maen nhw yn eu gyrfa a’u huchelgeisiau. Rydym yn canolbwyntio ar alluogi arweinyddiaeth dysgu ac rydym yn dangos hyn drwy ymgorffori ein gwerthoedd ym mhopeth a wnawn.

**CYDWEITHREDU**
Fel sefydliad bach, ni fyddwn yn cyflawni unrhyw beth trwy weithio ar ein pennau ein hunain. Yn hytrach, partneriaethau agos gyda’r proffesiwn a chyda’n sefydliadau cymheiriaid haen ganol fydd ein dull diofyn o weithio

**SEFYDLIAD DYSGU**
Byddwn yn adolygu ac yn addasu ein gwaith yn seiliedig ar ganfyddiadau Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth

**CYNHWYSOL**
Byddwn yn gweithio gyda’r holl arweinwyr addysgol ac ar eu rhan, waeth beth fo’u lleoliad, sector, cyfnod gyrfa, cefndir daearyddol ac a oes ganddynt rôl arwain ffurfiol neu anffurfiol




**O DDIFRIF AM LES**
Mae arweinyddiaeth effeithiol yn ffynnu pan fydd cefnogaeth i les arweinwyr. Byddwn yn blaenoriaethu lles pob gweithiwr proffesiynol, gan gynnwys ein staff ein hunain a Chymdeithion

**CENEDLAETHOL**
Byddwn yn gweithio gyda Chymru gyfan ac ar ei rhan i helpu i sicrhau gwlad â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

**SEFYDLIAD SY’N GWRANDO**
Mae gwrando a rhoi llais i lais arweinyddiaeth wrth wraidd ein gwaith a bydd safbwyntiau, profiadau a barn broffesiynol arweinwyr addysgol yn llywio popeth a wnawn. Bydd y maes addysg yng Nghymru yn parhau i newid a byddwn yn addasu ein dull strategol, ein ffyrdd o weithio a’n dyraniad adnoddau i adlewyrchu heriau a chyfleoedd newydd

**HYD BRAICH**
Fel sefydliad sy’n cyd-fynd yn strategol â Llywodraeth Cymru ac yn rhan o’r diwygiadau pwysig sydd ar y gweill ym maes addysg Cymru, byddwn yn gyfrannwr cadarnhaol sy’n gallu herio, yn ogystal â hwyluso, natur a llwybr polisi Arweinyddiaeth

**CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith ein hunain ac yn y ffordd rydym ni’n ceisio dylanwadu ar waith pobl eraill. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol

Mae pob arweinydd yn manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol arloesol, teg ac o ansawdd uchel, waeth beth fo’u lleoliad, sector, cyfnod gyrfa ac a oes ganddynt rôl arweinyddiaeth ffurfiol neu anffurfiol

Mae arweinyddiaeth system effeithiol yn ysgogi hunanwelliant, gyda gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac arwain y tu hwnt i strwythurau sefydliadol, rhwng haenau ac ar draws sectorau

Mae canllawiau arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy’n benodol i Gymru, wedi’u llywio gan y dystiolaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol, yn helpu gweithwyr proffesiynol i herio a gwella eu dulliau eu hunain o arwain yn barhaus

Mae lles arweinwyr yn cael ei flaenoriaethu a’i gefnogi’n systematig, gan greu gweithlu arweinyddiaeth gynaliadwy a gwydn

Mae Arweinyddiaeth wedi’i gwreiddio fel maes blaenoriaeth hirdymor i lunwyr polisi addysg sy’n para cylchoedd gwleidyddol

Mae arweinwyr wedi’u grymuso i helpu i siapio Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

Mae gan arweinwyr y grym i arloesi a chefnogi arloesedd ymhlith eraill. Mae meddwl a gweithredu arloesol yn sbardun i system hunanwella


Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales
EDRYCH YMLAEN | LOOKING FORWARD
Hunanofal
Rhaid i hunanofal fod yn brif flaenoriaeth ac yn brif bryder i bob arweinydd.
Rhaid i arweinwyr roi eu hiechyd a'u lles eu hunain yn gyntaf, fel y gallant helpu eraill.
Rhaid i hunanofal fod yn flaenoriaeth i'r rhai sy'n arwain ysgolion neu unrhyw sefydliad.
Self Care
Self-care must be the main priority and prime concern for all leaders.
Leaders must put their own health and wellbeing first, so that they will be able to help others.
Self care must be a priority for those leading schools or any organisation.

# Datganiad gan y Prif Weithredwr



**Rwy'n falch iawn o rannu fy sylwadau ar waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol fel rhan o Adroddiad Blynyddol 2022-2023.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud llawer o gynnydd wrth addasu i dirwedd newidiol addysg, gan symud o fod wedi newid yn llwyr i weithio o bell a darparu gwasanaethau ar-lein yn 2021-2022 i weithredu gweithio hybrid yn llwyddiannus. Rydym wedi cydnabod yr angen am hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac mae'r trefniant hwn yn ein galluogi i feithrin diwylliant o gydweithio ac arloesi o fewn y sefydliad yn ogystal â gyda'n harweinwyr addysgol ledled Cymru.

Yn ystod 2022-2023 fe wnaethon ni barhau i gynnal digwyddiadau ar-lein gan gynnig gwerth anhygoel i greu profiadau cynhwysol ac ymgysylltiol i gyfranogwyr. Mae'r dull hwn o gynnal digwyddiadau wedi dod yn gynyddol bwysig yn ein tirwedd ddigidol sy'n esblygu'n barhaus, gan alluogi cyfranogwyr i ymuno o unrhyw le yng Nghymru, a'r byd yn wir, a dileu rhwystrau costau teithio a llety. Mae ein cynadleddau ar-lein wedi bod yn uchafbwyntiau arbennig a chynhaliwyd ein trydedd cynhadledd Lles ar-lein ym mis Ionawr 2023, a oedd unwaith eto'n pwysleisio pa mor bwysig yw blaenoriaethu lles ein harweinwyr addysgol.

Parhawyd i ddarparu platfformau digidol ar gyfer sgyrsiau a oedd yn blaenoriaethu lles ein harweinwyr yn ein sesiynau Pen-i-Ben. Darparodd y sesiynau hyn lefydd preifat i'n harweinwyr ddod ynghyd o bob cwr o Gymru, gydag ystafelloedd trafod pwrpasol ar gyfer trafodaethau cyfrinachol, lle roeddynt yn teimlo'n ddiogel i rannu heriau, llwyddiannau a phryderon gyda'i gilydd.

Mae yna fanteision unigryw i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb hefyd na ellir eu cael yn rhithwir, gan fod rhyngweithio personol yn meithrin cysylltiadau dyfnach, cyfleoedd rhwydweithio a thrafodaethau ar hap. Ym mis Ebrill 2022, cynhaliwyd ein Profiad Dysgu wyneb yn wyneb cyntaf i Gymdeithion o Garfan tri a Charfan pedwar, gan mai dim ond ar-lein yr oeddynt wedi cyfarfod o'r blaen oherwydd y Pandemig Byd-eang, a chyfarfu Carfan pump am y tro cyntaf ym mis Medi 2022. Roedd yr egni a'r ymgysylltu a ddaeth yn sgil y ffaith bod y Cymdeithion yno'n bresennol yn gwella'r profiad dysgu ac yn darparu platfform ar gyfer cyfathrebu rhyngbersonol, gan alluogi'r Cymdeithion i gyfnewid syniadau, cydweithio a meithrin perthnasoedd. Mae'r garfan ddiweddaraf a mwyaf hon o Gymdeithion yn cynrychioli tirwedd ddaearyddol Cymru ac yn cynnwys ystod o sectorau addysgol, o ysgolion, y sector gwaith ieuenctid a'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Yn 2022-2023 hefyd gwelwyd cynnydd yn staff yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol gyda phenodi Richard Edwards (Pennaeth Datblygu Arweinyddiaeth), Gareth Key (Swyddog Cymorth Busnes), Nia Miles (Pennaeth Mewnwelediad) a Geraint Roberts (Swyddog Marchnata Digidol a'r Cyfryngau). Mae'r twf hwn mewn staff dros amser byr yn dangos y gwerth y mae'r sefydliad yn ei roi i'r system a'r angen i sicrhau ein bod ni'n parhau i gefnogi arweinwyr heddiw a darpar arweinwyr y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru am barhau i hyrwyddo rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth addysgol ac am gyfoethogi bywydau ein dysgwyr.

**Tegwen Ellis, Prif Weithredwr**

# Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd



**Unwaith eto, rwy'n falch o gynnig datganiad sy'n myfyrio ar flwyddyn lwyddiannus arall o weithgarwch. Yn ei phumed blwyddyn o weithredu, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi parhau i ehangu ei chyrhaeddiad ymhellach ar draws Cymru a thu hwnt, gan gynnal ffocws allweddol o gefnogi arweinwyr ar draws y system addysg.**

Mae'n rhaid llongyfarch y Prif Weithredwr, Tegwen Ellis, am ei gweledigaeth arloesol a'i harweinyddiaeth gadarn o dîm y staff, ac mae'n dda gweld y tîm yn ehangu mewn niferoedd i ymateb i ystod o anghenion yn y sector addysg. Mae eleni, 2022-2023, wedi gweld newid pellach yn y dirwedd addysgol gyda gweithgarwch wyneb yn wyneb yn dychwelyd yn y rhan fwyaf o leoliadau. I'r diben hwn, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi sefydlu model gweithio hybrid – gan godi i her cynnal presenoldeb lle bo'n bosibl. Mae presenoldeb digidol a gweithgareddau ar-lein yn dal i fod yn llwyddiant parhaus, ac mae'r cynadleddau a'r digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi bod yn weithgarwch i'w groesawu er mwyn rhannu gweledigaeth, syniadau a chyfeiriad y dyfodol.

Mae'r carfannau cynyddol o Gymdeithion yn dod o ystod amrywiol o leoliadau addysg, ac mae'n dda croesawu'r rhai o leoliadau y tu allan i'r system ysgolion fel y sectorau Gwaith Ieuenctid ac Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Mae'r Cymdeithion yn allweddol er mwyn cynnal cysylltiad uniongyrchol ag arweinwyr yn y system – a law yn llaw â thîm y staff, nhw yw asgwrn cefn y sefydliad.

Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth barhaus fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd, sy'n cynnal ymrwymiad i sicrhau trosolwg strategol o'r gwaith parhaus, a chefnogi gweithgarwch cyfredol y sefydliad drwy waith yr is-bwyllgorau. Rwy'n croesawu tri aelod diweddaraf y Bwrdd (Yusuf Ibrahim, Dr Deborah Nash a Katie Phillips) sydd wedi dod â gwybodaeth a phrofiadau newydd i'r Bwrdd dros y flwyddyn.

Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, hoffwn ddiolch i'r tîm o staff sy'n parhau i ddangos brwdfrydedd, ymroddiad a phroffesiynoldeb diwyro wrth gyflawni eu gwaith. Mae'n amlwg eu bod wedi ymrwymo i sicrhau bod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i gyflawni ei bwrpas o **Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau.**

**Dr Sue Davies, Cadeirydd y Bwrdd**

# Adolygiad o'r Flwyddyn

## SICRHAU ANSAWDD

23 darpariaeth wedi'u cymeradwyo gan 15 darparwr

Dros 3,500 o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn darpariaeth wedi'i chymeradwyo

Symud i alwadau agored am gymeradwyaeth i gefnogi arweinwyr yn y blaenoriaethau strategol canlynol: Anghenion Dysgu Ychwanegol; Cwricwlwm i Gymru; Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Gwrth-hiliaeth; Cymraeg mewn Addysg; Arweinyddiaeth Dosturiol; Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol; Llywodraethwyr

## ARLOESEDD

12 o brosiectau wedi'u hariannu drwy'r Llwybr Arloesedd

Cyfres 4 o sesiynau arloesi wedi'i chyflwyno gyda'r Athro Andy Penaluna a Jessica Leigh-Jones MBE

Pedair darpariaeth a ariannwyd yn 2021-2022 drwy'r Llwybr Arloesedd wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo yn 2022-2023

## ARWEINYDDIAETH SYSTEM

**CARFANNAU 1 a 2**
Cymdeithion yn gweithio o fewn a thu hwnt i'w sefydliadau eu hunain gan weithredu fel Arweinwyr System

**CARFANNAU 3 a 4**
Gweithio ar eu comisiynau – canolbwyntio ar Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Ysgolion Bro

**CARFAN 5**
Cyfnod sefydlu wedi'i gyflawni ac yn cwblhau profiadau dysgu

## DATBLYGU ARWEINYDDIAETH

Gweminarau Datgloi'r Cwricwlwm gyda'r Athro Graham Donaldson, yr Athro Ken Muir a'r Athro Mark Priestley wedi'u cyflwyno i arweinwyr o bob cwr o Gymru ac ar draws pob sector addysg

Ymgysylltu â thros 2,000 o arweinwyr ledled Cymru drwy ddigwyddiadau, gweminarau a chynadleddau

Cynnal digwyddiadau mewn partneriaeth â Chonsortiwm y Tair Gwlad (Addysg yr Alban a Chanolfan Arweinyddiaeth Ysgolion Iwerddon), Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Datblygu Proffesiynol Rhyngwladol Cymru a Colegau Cymru

## ADNODDAU

Ymgysylltu mwy â'r adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol drwy ddigwyddiadau a chynnwys wedi'u curadu

## MEWNWELEDIAD

Cyhoeddiad cyfres mewnwelediad newydd ar les arweinwyr addysgol

## LLES

Y drydedd gynhadledd ar-lein wedi'i chynnal gyda dros 140 o fynychwyr o bob cwr o Gymru

## CYFATHREBU A MARCHNATA

Mwy o ymgysylltu a phresenoldeb digidol

Mwy o weledEdd a phresenoldeb yn y sector

Digwyddiadau a chyfathrebu hybrid wedi'u darparu i arweinwyr ledled Cymru

Dulliau a chynnwys cyfathrebu difyr wedi'u rhyddhau yn dangos gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

Dros 6,000 wedi gwylio fideos a gwrando ar bodlediadau yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

## YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn digwyddiadau cenedlaethol: Eisteddfod yr Urdd a'r Sioe Addysg Genedlaethol

Cymryd rhan mewn sesiynau a darparu sesiynau yng Nghynhadledd Flynyddol BELMAS 2022

Cyd-lunio cytundebau partneriaeth ffurfiol â'r consortia traws-ranbarthol a chynllunio cytundebau'r dyfodol â Chyngor y Gweithlu Addysg, Cymwysterau Cymru a Chymorth Addysg

## Sicrhau Ansawdd

Rhan o'n cylch gwaith craidd gan Lywodraeth Cymru yw darparu cydlyniant a sicrhau ansawdd yr ystod o ddarpariaeth arweinyddiaeth sydd ar gael yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn drwy ein proses gymeradwyo a monitro dan arweiniad 'cymheiriaid'. Mae ystod eang o ddarpariaeth wedi cael ei chymeradwyo ac i'w weld ar ein gwefan a'n e-brosbectws.

Yn ystod 2022-2023 derbyniwyd chwe chais am gymeradwyaeth:

- Grŵp Llywio Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gwaith Ieuenctid – Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gwaith Ieuenctid
- Ysgol Gynradd Gellifedw – Datblygu Arweinwyr Canol mewn Lleoliad Cynradd
- Consortia Rhanbarthol yng Nghymru – Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ôl-16
- Consortia Rhanbarthol yng Nghymru – Cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru
- Amodigo – Hyfforddi a Mentora i Arweinwyr Gwaith Ieuenctid
- Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol – Llywodraethwyr ac Uwch Arweinwyr

Cafodd pob darpariaeth arall ei monitro drwy broses dan arweiniad 'cymheiriaid' a chadwodd pob un ei statws cymeradwy.

**Roedden ni'n gweld y broses gymeradwyo yn fanwl a heriol; mae'n cefnogi ymgeiswyr i baratoi eu ceisiadau'n drylwyr. Roedd yn deg a chefnogol ym mhob cam hefyd (cyn ymgeisio ac yn ystod ymgeisio). Mae'r meini prawf cymeradwyo'n glir ac mae arweiniad/esboniad o'r broses ar gael gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol os oes angen.**

## Arloesedd

Mae meddwl a gweithredu'n arloesol yn hanfodol ar gyfer system hunanwella, ac rydym yn cefnogi arweinwyr i arloesi a chefnogi arloesedd ymysg eraill drwy:

- Gronfa Llwybr Arloesi lle mae darpariaeth arweinyddiaeth yn cael ei datblygu, ei phrofi ac yna'i chymeradwyo
- Gweithdai Arloesi blynyddol i ysgogi meddwl a gweithredu arloesol ymysg arweinwyr addysgol.

Yn ystod 2022-2023 fe wnaethom ni gefnogi datblygiad darpariaeth arweinyddiaeth newydd drwy'n cronfa Llwybr Arloesedd, yn cynnwys:

- Chrysalis Mindset Coaching – Rhaglen Twf Personol Paratoi i Arwain eich Hun
- Consortiwm Canolbarth y De – Arweinwyr Llywodraethu Rhanbarthol
- Aspire2be – Arwain Trawsnewid Digidol
- Re-thinking Education – Gwyddor Gweithredu (Arwain Newid)
- Foundation for Community Engagement – Arwain Ymgysylltu Cymunedol
- Coleg Sir Gâr – Darpar Arweinwyr
- Impact in Learning – Arwain Ymgysylltu â Rhieni
- Ysgol Gymunedol Tonyrefail – Rhaglen Mewnwelediadau i Arweinyddiaeth
- Ysgol Maelor – Arweinyddiaeth Ganol Fugeiliol
- Ysgol Gynradd Tregatwg – Arweinyddiaeth Ysgolion Bro Effeithiol

Yn dilyn y drydedd gyfres o weithdai arloesedd, 'Arwain Arloesedd Digidol', derbyniodd 12 sefydliad gyllid a'i ddefnyddio i ddangos sut maen nhw fel arweinwyr addysgol yn datblygu diwylliant arloesol drwy arloesedd digidol. Mae enghreifftiau o astudiaethau achos 'Arwain Arloesedd Digidol' i'w gweld ar ein gwefan.

Cynlluniwyd y bedwaredd gyfres o weithdai arloesedd, ARLOESEDD+, ar gyfer uwch arweinwyr addysg ledled Cymru ac fe'i cynhaliwyd ym mis Mawrth 2023, gyda thros 30 o arweinwyr yn mynychu'r gyfres dair rhan. Datblygwyd y sesiynau hyn yn unol â'r sgiliau sy'n annatod i'r Pedwar Diben ac fe'u cyflwynwyd gan ddau arloeswr profiadol, yr Athro Andy Penaluna a Jessica Leigh Jones MBE (iungo Solutions).

**Roedd ARLOE dysgu proffes ynddo ers tro ffaith ei fod m yn golygu boc**



> Darparodd y gweithdai Arloesedd strategaethau y gellid eu defnyddio i helpu i greu newid ac arloesedd ac roedd yn dangos pa mor bwysig yw ymddygiadau arwain o ran tanio brwdfrydedd, annog ac ysbrydoli staff. Byddaf yn mynd â'r wybodaeth dwi wedi'i dysgu yn ôl i staff a rhanddeiliaid ac yn defnyddio'r strategaethau i integreiddio arloesedd ymhellach fel rhan o weledigaeth ein gwasanaeth ."

## Arweinyddiaeth System

Gwyddom fod arweinyddiaeth system effeithiol yn gyrru hunanwelliant gyda gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac arwain y tu hwnt i'w sefydliad, rhwng haenau ac ar draws sectorau. Mae gennym bellach sawl carfan o Gymdeithion yn symud drwy fodel arweinyddiaeth system aeddfed ac maen nhw'n cael dylanwad mesuradwy ar y system addysg y tu hwnt i'w sefydliadau eu hunain yn cynnwys drwy Hwyluso; Eirioli; Ymgyrchu; Porthgadw; Galluogedd ar gyfer newid; Gweithredu; Gwella. Fel y nodwyd ym Mhapur Mewnwelediad yr Athro Alma Harris *Arweinwyr Systemau ac Arweinyddiaeth Systemau: Adolygu'r Dystiolaeth.*

Mae'r Cymdeithion yn parhau i weithredu fel llais y proffesiwn, gan lywio'n gwaith a darparu cynrychiolaeth ar rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac ar weithgorau Llywodraeth Cymru. Yn ystod 2022-2023 fe wnaethom ni recriwtio ein pumed carfan o Gymdeithion, gydag arweinwyr o leoliadau amrywiol yn cynnwys y sectorau Cynradd ac Uwchradd, cyfrwng Cymraeg, Ysgolion Arbennig, y sector Gwaith Ieuenctid a'r sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

Mae ymholiad cydweithredol y Cymdeithion yn parhau i fod yn ffocws i'w gweithgarwch gan lywio a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Mae Carfan 3 a Charfan 4 wedi cwblhau eu taith gomisiwn gan ystyried y goblygiadau arwain ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Ysgolion Bro. Mae Carfan 5 wedi dechrau eu gwaith comisiwn yn ystyried Lles Arweinwyr a galluogwyr arweinyddiaeth gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Dyma'r gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

> SEDD+ yn un o'r sesiynau iynol gorau dwi wedi bod . Fe wnes i wir fwynhau'r ewn grŵp bach hefyd. Roedd l pawb yn gallu rhannu. "

# Ein Cymdeithion

## CARFAN 3

**Catrin Thomas**
Ysgol Bro Preseli, Crymych SA41 3QH
**Simon Roberts**
Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Maes-y-bryn, Pontypridd CF38 2NS
**Alison Ellis**
Ysgol Maesyrhandir, Y Drenewydd SY16 1LQ
**Kerina Hanson**
Ysgol Gynradd Pennard, Abertawe SA3 2AD
**Sharon Hope**
Ysgol Gynradd y Glais, Abertawe SA6 7JX
**Dr Joe Cudd**
Ysgol Pen Rhos ac Ysgol Pentip, Llanelli SA15 2NG & SA15 3BL
**Olwen Corben**
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug CH7 1PS
**Marc Jones**
Ysgol Pen Barras, Rhuthun LL15 1QQ
**Dr Llinos Jones**
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin SA32 8DN

## CARFAN 4

**Gayle Shenton**
Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd, Castell-nedd SA11 3AL
**Jayne Woolcock**
Ysgol Gynradd Penlle'r-gaer, Abertawe SA4 9DB
**Rhian Milton**
Ysgol Gynradd Tregatwg, Y Barri CF63 2JS
**Rebecca Turner**
Ysgol Acrefair, Wrecsam LL14 3SH
**Noel Fitzgerald**
Ysgol Pen Coch, Y Fflint CH6 5DL
**Mair Hughes**
Ysgol Penglais, Aberystwyth SY23 3AW
**Louise Williams**
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Wrecsam LL13 0ES
**Heini Thomas**
Ysgol Y Dderi, Llangybi SA48 8LY
**Gavin Gibbs**
Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen, Torfaen NP44 1AN
**Andrew Brasington**
Ysgol Gynradd George Street, Pont-y-pŵl NP4 6BX
**Joanne Cueto**
Ysgol Gynradd Maendy, Casnewydd NP19 0AP
**Claire Williams**
Ysgol Gynradd Glan Usk, Casnewydd NP19 7HF

## CARFAN 5

**Dewi Wyn Hughes**
Ysgol Gwynedd, Y Fflint CH6 5NF
**Geraldine Foley**
Ysgol Gynradd Marlborough, Caerdydd CF23 5BU
**Michelle Kerswell**
Addysg Oedolion Cymru, Caerdydd CF10 5NB
**Emil Evans**
Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd CF10 5FE
**Margaret Davies**
Ysgol Arbennig Sant Christopher, Wrecsam LL13 7BW
**Bryony Evett Hackfort**
Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion, Llanelli SA15 4DN
**Mike Cameron**
Ysgol Gymunedol Tonyrefail, Porth CF39 8HG
**Russ Dwyer**
Ysgol Gynradd Gymunedol Sant Thomas, Abertawe SA1 8EZ
**Marco Gil-Cervantes**
ProMo-Cymru, Caerdydd CF10 5EP
**Penny Ellwood**
Ysgol Maelor, Wrecsam LL13 0LU
**Owain Roberts**
Ysgol Cybi, Caergybi LL65 1NS
**Alison Williams**
Ysgol Gynradd Craigfelen, Clydach SA6 5DP
**Siân Thomas**
Ysgol Woodlands, Caerdydd CF5 5AQ
**Richard Hatwood**
Ysgol Gynradd yr Holl Saint, Wrecsam LL12 8RW
**Helen Jones**
Ysgol Maesteg, Maesteg CF34 0LQ
**Claire Rayner**
Ysgol Min y Ddol, Wrecsam LL14 3PA
**Catrin Coulthard**
Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8LU
**Owain Jones**
Ysgol Gyfun Aberaeron, Aberaeron SA46 0DP



## Datblygu Arweinyddiaeth

Yn ystod 2022-2023 mae arweinwyr addysgol yng Nghymru wedi manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth sy’n cyfrannu at ddatblygiad eu galluoedd proffesiynol. Mae’r cyfleoedd hyn wedi gwneud iddynt deimlo eu bod wedi’u grymuso, eu hysbrydoli a’u cymell. Mae ein gweithgareddau Datblygu Arweinyddiaeth yn cynnwys gweminarau fel gweminarau Datgloi Arweinyddiaeth gyda siaradwyr fel yr Athro Graham Donaldson, yr Athro Ken Muir a’r Athro Mark Priestley, cynadleddau yn archwilio Arweinyddiaeth Dosturiol ac Arweinyddiaeth Ganol, digwyddiadau mewn sgwrs gydag arweinwyr ac ymarferwyr o bob cwr o Gymru a digwyddiadau rhyngwladol gyda’n partneriaid Tair Gwlad (Addysg yr Alban a'r Ganolfan Arweinyddiaeth Ysgolion, Iwerddon.).

Mae dros 2,000 o arweinwyr o bob cwr o Gymru wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau Datblygu Arweinyddiaeth yn 2022-2023.

> **Diolch yn fawr iawn – mewnwelediad diddorol iawn! Sesiwn wych gydag ystod eang o wahanol brofiadau yn yr ystafell**
>
> Un o fynychwyr y gynhadledd



## Partneriaethau

Mae’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar draws yr haen ganol a thu hwnt.

Mae gweithio mewn partneriaethau a chydweithio â’n rhanddeiliaid yn hynod o bwysig yn y dirwedd addysgol, yn enwedig o ran arweinwyr addysgol. Eleni, mae’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru wedi cynnal dull hybrid o ymgysylltu â’i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, gan barhau i gyfarfod ar-lein ac ym mis Tachwedd 2022, cynhaliwyd ein fforwm wyneb yn wyneb cyntaf â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru yn y Ganolfan Gynadledda Genedlaethol yng Nghasnewydd. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i randdeiliaid gydweithio, dylanwadu ac eirioli am newidiadau angenrheidiol yn ein system addysg. Roedd cael yr arweinwyr yn yr ystafell yn sicrhau ymgysylltu, craffu a deialog proffesiynol gwell.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â’n partneriaid Tair Gwlad yn yr Alban (Addysg yr Alban) ac Iwerddon (Canolfan Arweinyddiaeth Ysgolion) ac ym mis Ionawr 2023, aeth dirprwyaeth o aelodau staff a Chymdeithion ar ymweliad i Iwerddon i rannu a thrafod strategaethau i fynd i’r afael ag effaith tlodi ar addysg. Cynhaliwyd cydweithio pellach rhwng y tair gwlad yn uwchgynhadledd y Tair Gwlad, gyda ffocws ar Archwilio Arweinyddiaeth System gyda’r Athro Alma Harris. Mae mynediad at arbenigedd drwy gydweithio yn ein galluogi ni i rannu adnoddau a hyrwyddo mynediad teg i arweinwyr addysgol o’r tair gwlad.

Cynhaliwyd gwaith partneriaeth pellach gyda Chymdeithas Datblygu Proffesiynol Rhyngwladol Cymru, sef digwyddiad cydweithio ar-lein o’r enw ‘Disgleirio golau… arwain dysgu proffesiynol’ gyda’r Athro Ken Jones yn rhannu ei ddealltwriaeth o’i bapur, *Arwain Dysgu Proffesiynol* ac wyth dilysnod dysgu proffesiynol sy’n cael ei arwain yn dda. Mae digwyddiadau ar-lein gyda’n partneriaid yn darparu’r cyfleoedd i arweinwyr ddod ynghyd, dysgu, cyfathrebu a rhwydweithio heb orfod teithio.

Ymhellach, rydym wedi parhau i weithio gyda’n partneriaid haen ganol i feithrin cysylltiadau ac wedi eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau pan fyddwn yn cyd-drefnu digwyddiadau neu’n gwneud newidiadau i’n ffyrdd o weithio. Mae’r dull cydweithredol hwn yn helpu i feithrin tryloywder a chynhwysiant er budd yr arweinwyr addysgol yn y system.








## Adnoddau

### Arwain Dysgu Proffesiynol

Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu ein hadnodd Arwain Dysgu Proffesiynol, sy'n cynnwys wyth dilysnod dysgu proffesiynol dan arweiniad effeithiol, a gafwyd o adolygiad helaeth o lenyddiaeth academaidd a pholisïau rhyngwladol. Mae'r adnodd yn gwahodd arweinwyr addysgol yng Nghymru i fod yn ysbrydoledig yn eu dull strategol o arwain dysgu proffesiynol drwy ffilmiau byrion ac animeiddiadau, astudiaethau achos helaeth a dolenni at ddeunydd darllen pellach. Bu cymdeithion o ysgolion, y sector Gwaith Ieuenctid a'r sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yn modelu gan ddefnyddio'r adnodd yn eu lleoliadau eu hunain ac yn rhannu eu dulliau â chydweithwyr mewn digwyddiad *Mewn Sgwrs* ar-lein.

## Mewnwelediad

Parhawyd i gyhoeddi ymchwil a dadansoddi newydd drwy ein cyfres Mewnwelediad, gyda'r nod o hysbysu a herio polisi ac ymarfer arweinyddiaeth yng Nghymru.

Fel rhan o'r gyfres, fe wnaethom ni a'n partneriaid Colegau Cymru gyd-gomisiynu *Deall arweinyddiaeth yn y sector addysg bellach yng Nghymru gan Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru*. Cyfrannodd Dr Ali Davies at y gyfres hefyd drwy'r papur, *Mwy na "phlastr".*

Comisiynwyd ein Cymdeithion gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i gynnal dau brosiect ymchwil, yn archwilio rôl arweinyddiaeth addysgol mewn diwygio ADY ac i wireddu gweledigaeth ar gyfer Ysgolion Bro yng Nghymru, yn y drefn honno. Mae'r ddau gomisiwn wedi'u cwblhau a bydd adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2023.

Bydd y Cymdeithion o Garfan 5 yn gwneud eu gwaith comisiwn eu hunain yn 2023-2024, gan edrych ar ddau faes gorchwyl arall: y Cwricwlwm i Gymru a Lles Arweinwyr Addysgol.

## Lles

Yn ystod 2022-2023 mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi parhau i weithio tuag at sector sy'n blaenoriaethu ac yn cefnogi'n systematig lles pob arweinydd addysgol ledled Cymru. Fe wnaeth ein Gweithgor, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, yr Esgobaethau, Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol, gyflwyno ei Gynllun Gweithredu, sydd wedi'i



seilio ar argymhellion Dr Ali Davies yn ei phapur Mewnwelediad, *Mwy na 'phlastr'*.

Gan weithio gyda'n partneriaid Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, dechreuwyd datblygu gweledigaeth ar gyfer cynnig dysgu proffesiynol newydd i gefnogi'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Lles. Mae'r gwaith hwn, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys rhaglenni sy'n canolbwyntio ar les arweinwyr ac ar greu diwylliannau o dosturi. Bydd y rhaglenni newydd yn cael eu treialu yn 2024.

Cynhaliwyd ein trydedd cynhadledd lles genedlaethol ym mis Ionawr 2023. Mynychodd dros 140 o arweinwyr addysgol y gynhadledd ar-lein ac roedd yn cynnwys sesiynau ar les arweinwyr addysgol ar lefel polisi ac ymarfer.

## Datblygu'r Gweithlu

Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethon ni gomisiynu'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a'r Uned Polisi Addysg i arwain prosiect ymchwil mawr sy'n archwilio recriwtio a chadw uwch arweinwyr addysgol yng Nghymru. Bydd y prosiect, a fydd yn cyhoeddi adroddiad yn hydref 2023, yn adolygu data cyfredol ar recriwtio a chadw ac yn cynhyrchu data ansoddol newydd drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws gydag uwch arweinwyr heddiw a'r dyfodol.

## Ymgysylltu

Yn ystod 2022-2023, buom yn ymgysylltu ag arweinwyr drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau gwahanol ledled Cymru ac ar-lein. Roedd gennym stondin yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych, yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron a'r Sioe Addysg Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yn Eisteddfod yr Urdd cynhaliwyd trafodaeth banel ar addysg gyda Jeremy Miles AS (Gweinidog y Gymraeg ac Addysg) Owen Evans (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn) a David Jones (Cadeirydd Cymwysterau Cymru) ac yn y Sioe Addysg Genedlaethol cynhaliwyd seminar sbotolau i ddarpar arweinwyr.

Cynhaliwyd sesiwn ar-lein hefyd yn Uwchgynhadledd Addysg y Byd 2023 yn archwilio menywod ym maes arweinyddiaeth.

Mae cynnwys o'n digwyddiadau hefyd wedi ymddangos mewn digwyddiadau partner fel Cynhadledd Lles GwE a chyrsiau allanol fel modiwl Open Learn y Brifysgol Agored 'Leadership by Inclusion: What you can do'.


We're the inspectorate
education and
g in Wales.
estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales
@EstynAEM
ESTYN
Estyn





Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales
Estyn
Cymwysterau Cymru
Qualifications Wales

# Datganiadau Ariannol

## Cyfrif Elw a Cholled ar gyfer diwedd y Flwyddyn 31 Mawrth 2023

| | **2023**<br>**£** | **2022**<br>**£** |
|---|---|---|
| Trosiant | 1,826,469 | 1,348,912 |
| Cost gwerthiannau | (906,363) | (751,967) |
| Gwarged gross | 920,106 | 596,945 |
| Treuliau gweinyddol | (780,673) | (612,058) |
| Gwarged gweithredu | 139,433 | (15,113) |

Roedd y canlyniadau uchod yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes gan y cwmni unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn ac eithrio'r canlyniadau uchod.

Yn unol â rheolau cyfrifyddu arferol, rydym yn cynnwys y costau yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo gan ddefnyddio addasiadau rhagdalu a chroniad. Fodd bynnag, mae rhai prosiectau yn cwmpasu cyfnod y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ac felly nid yw'r costau wedi'u cydnabod eto. Oherwydd y polisi adnabod incwm, mae'r incwm wedi ei gydnabod yn llawn gyda'r effaith o chwyddo'r gwarged ymddangosiadol a'r arian wrth gefn. Mewn gwirionedd, gwariant ymrwymedig yw hwn.

## Mantolen ar 31 Mawrth 2023

| | **2023**<br>**£** | **2022**<br>**£** |
|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | |
| Asedau Diriaethol | 13,669 | 2,268 |
| **Asedau Cyfredol** | | |
| Dyledwyr | 275,329 | 173,374 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 31,651 | 3,096 |
| | **306,980** | **176,470** |
| **Credydwyr**: Symiau sy’n ddyledus o fewn un flwyddyn | (17,154) | (14,676) |
| Asedau **cyfredol Net** | 289,826 | 161,794 |
| Asedau **Net** | 303,496 | 164,062 |
| **Cyfalaf ac wrth gefn** | | |
| Cyfrif elw a cholled | 303,496 | 164,062 |
| Cronfeydd wrth gefn | 303,495 | 164,062 |

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bach. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar 29 Medi 2023 ac fe’u llofnodwyd ar ei ran gan:



Dr S Davies (Cyfarwyddwr)



agaa.cymru
nael.cymru